# MARWNAD

ER COFFADWRIAETH AM Y DIWEDDAR

BARCH. D. PARRY, LLANWRTYD:

Yr hwn a fu farw Ebrill 27, 1821, yn 61 mlwydd Oed; wedi bod 43 o flynyddoedd yng ngwaith y weinidogaeth.

**Gan D. Williams, Llanwrtyd.**

---

*Claddwyd y Parch. D. PARRY Mai 'y 1,* 1821. *Ar ddydd ei gladdedigaeth gweddiodd. Mr J Davies yn y gilfach; ym mhontrhyd-y-bere, gweddiodd Mr E Harries, a phregethodd Mr W. Harries oddiwrth Phil.* 1, 23. *ar Parch D. Williams, Llanwrtyd,* 1 *Cor.* 15, 26. *a' r Parch. E, Evans, Dan* 12, 3. *" A Dafydd a hynodd gyda ei dadau."* 1 *Bren,* 2, 10. *"A Dafydd a alarnadodd yr alarnad hon."* 2 *Sam.* 1, 17.

*"Yr awr yr aeth i' r oer-rych,*
*"Ni bu son am wyneb sych.*

*D. AB IOAN DDU.*

---

1

Beth yw' r wylaw a' r galaru
  Heddyw glywaf ar bob llaw?
Pa' m 'ryw' n gweled fy nghyfeillion
  Nawr mor bruddion yma a thraw?
Pa' m mae ffyddlon weision Iesu' n
  Wyneblasu ar hyn o bryd?
Pa' m mae Seion filwriaethus,
  Mor alarus 'nawr o hyd?

W. WILLIAMS, ARGRAPHYDD, ABERHONDDU.

2

Mae Dinefwr faith a Phowys,
  Oll ynghyd ag Aberffraw,
Y tair Talaith helaeth hynny
  Wedi eu llenwi o' r bron a braw:
Holl Eglwysi Crist yr awrhon,
  'Nenwedig y Trefnyddion sydd,
Och! yn wy o a galar ganu,
  Ac yn synu nos a dydd.

3

Mae rhyw len o ddu dywyllwch
  'Nawr dros wyneb Cymru gron;
A rhwy gwmwl tywyll garw
  Wedi llwyr orchguddio hon.
A oes neb a all fynegu
  Beth yw' r cwmwl tywyll du?
Beth yw' r wylo ar galaru
  Heddyw glywaf ar bob tu?

4

Un o weinidogion Iesu,
  Cywir ffyddlon yn ei ddydd,
DAFYDD, PARI dan ei enw,
  Wedi marw' n ddiau sydd:
Fe ddaeth dydd ei ymddatodiad,
  Daeth ei oriau at y nod;
Fe 'madawodd a'r cyfeillion
  Goreu garodd is y rhod.

5

Duw ai galwodd pan yn fachgen,
  Idd ei winllan yn y byd;
A thrw, rym ei ras fe' i daliodd,
  Ynddi' n ffyddlon was o hyd.
Yn ei i'engtyd fe gysegrodd
  Oll a feddai i Iesu Grist;
Ac mewn amryw gyfyngderau
  Pwysodd arno' i enaid trist.

6

Yn y Gogledd fe ddechreuodd,
  A phregethu' r Iesu gwiw,
Yn Waredwr, a Iachawdwr,
  I 'r pechadur mwya' n fyw:
A than bur ac effieithiol,
  Weithrediadau' r Ysbryd Glan,
Cafodd miloedd trwyddo fendith
  Nes oedd eu heneidiau' n dan.

7

Yn llaw Duw fe fu' n offeryn,
  I ysbeilio' r diafol du,
O ugeinau maith o' r milwyr
  Mwyaf ffyddlon yn ei lu:
Cafodd Seion lawer bendith
  Trwyddo yma ar ei thaith;
Ai gwrteithio, wedi blino,
  Ar ei dyrus anial daith.

8

Yn y cyfarfodydd misol,
  Yn' r *Association* fawr,
Ond cael DAFYDD fwyn i fynu,
  Fe ddiferai' r nef i lawr;
A thrwy rym ei fwyn athrawiaeth,
  Efengylaidd felus bur,
Fe ddadebrai Seion egwan,
  Yn y dyrus anial dir.

9

Ond er cymaint oedd ei ddoniau,
  Ond er cymaint rhin ei ras,
Ond er cymaint ga' dd fendithion,
  Trwyddo yn y crindir cras;
Brenin mawr y dychryniadau,
  Roddodd iddo farwol saeth,
Ac ar ol rhyw hir ryfela,
  Och! or diwedd maeddu a wnaeth.

10

Nychlyd gorff a ddygodd DAFYDD,
Trwy y byd flynyddoedd maith,
A hynny o herwydd ei ffyddlondeb,
Dros ei Arglwydd gyda'i waith,
Ond o'r diwedd cafodd wared
Nychlyd gorff mewn anial dir;
Nid oes arno boen na gofid,
Nawr o fewn Caersalem bur.

11

Nawr er syllu rwy'n ei golli,
'Dallai ddilyn 'mo' ho'n hwy,
Mai fy llygad yn rhy gnawdol
I gael golwg arno mwy:
Nid oes genyf ond dych'mygu,
Am ei enaid gwerthfawr drud;
Brynodd Iesu a'r Galfaria,
Yng ngwydd uffern nef a byd.

12

Nawr 'rwy yn dych'mygu ei weled
Yn ehedeg fynu fry;
Heibio ir haulwen, heibio Sadwrn,
Heibio'r holl wybrenol lu,
A'r Angelion glan yn furiau,
Yn ei gadw ar ei daith,
Rhag picellau'r fall ai saethau,
Yn yr eangderau maith.

13

Trwy yr eangderau'n ddiogel
Aeth i mewn i'r nefol wlad,
Hyfryd ardal ddedwydd dawel,
Pur breswylfa Duw a'r Tad;
Yno fe gyfarfu a brodyr,
Deithiodd greigydd blinion serth,
Hyd nes dod i fynydd Seion,
Fel ei hun o nerth i nerth.

14

Yno mae yn gwasanaethu
  Ger bron gorsedd Duw a'r Oen,
Gyda lluoedd o Angelion
  Heb na phla na briw na phoen;
Rho'i ei goron ddisglair auraidd
  Flaen y faingc y mae i lawr,
Gyda'r dorf ddirif o seintiau,
  Ddaeth i fynu o' r cystudd mawr.

15

Gyda'r pedair arsaith ugein mil
  Sydd yn canu ar Seion fryn;
A holl filoedd llwythau Israel,
  Sydd ai gynau oll yn wyn:
Yno mai yr Apostolion
  Y DAFYDD yn cyd *gordio'* r gan,
  CRAMNER LATIMER a RIDLEY,
A'r Merthyron aeth trwy'r tan.

16

Cydganu maent hwy am yr arfaeth
  Fu rhwng y drindod yn gytun,
Draw ym mryniau trag'wyddoldeb,
  I achub gwael golledig ddyn;
Yn ol syrthio yn druenus,
  A myn'd lawr yn Eden ardd,
Trwy fwyta o ffrwyth y pren gwybodaeth,
  Oedd yr ARGLWYDD yn wahardd.

17

A chydgaru gyda'u gilydd,
  Y tri Anfeidrol sydd yn un:
Caru'r Tad maent am grëu,
  Ac ethol gwael golledig ddyn;
Caru'r Mab y maent am brynu,
  A thalu *biliau* 'r nef yn llawn;
Caru'r Yspryd am sancteiddiaw,
  A galw'n effeithiol iawn.

18

'Nawr ar Satan fe ddiangodd,
  Ac o'i faglau aeth yn rhydd,
Bellach nid oes calon galed
  Idd ei flinaw nos na dydd,
Nid oes yn ei anedd dirion,
  Neb a chalon lawn o bla;
Pawb sydd yno'n berffaith gyfiawn,
  Pawb yn sanctaidd ac yn dda.

19

Yno mai yn gwel'd y llwybrau,
  Dyrus deithiodd yn y byd,
Gweld y creigydd serth echryslon,
  'Raeth e' drostynt oll i gyd,
Ac wrth ei weled wedi ei wared
  O'r peryglon hyn i gyd,
Mae yn moli Duw'n fwy tanllyd,
  Draw o fewn y nefol fyd.

20

Nid yw'r haulwen yno'n machlyd,
  Dydd sydd yno heb ddim nos;
Nid oes yno ddim och'neidaw,
  Na dim cwyno wrth *gario'r* groes;
O na feddwn inau aden
  Mi ehedwn at y llu,
I gael gogoneddu'r ARGLWYDD
  Heb un galon dywell ddu.

21

Seion, Seion, paid galaru,
  Paid ac wylaw ofer yw,
Er bod PARI wedi marw,
  Ni wnaeth ddim ond marw i fyw:
Ac er marw glan Weinidog,
  Cywir ffyddlawn yn ei ddydd,
Byw yw'r Weinidogaeth etto,
  Ac am hyn na fyddwn brudd.

22

'R ARGLWYDD ydyw'r hwn ai rhoddodd
Fe'i cymerodd yn ei ol;
Ac am hynny peidwn achwyn,
Fel ynfydion anfad ffol;
Ond diolchwn am i DDAFYDD,
Cy'd gael rhodio yma a thraw,
A gweddiwn âm i'w ysbryd,
Ddisgyn etto ar ei ddaw.

23

Ac erfyniwn ar yr ARGLWYDD
Brenhin daear faith a ne',
Ddanfon gweithwyr i'w gynhauaf
Fyddo'n llanw'n llwyr ei le,
Rhai fo'n Weinidogion ffyddlawn
I borthi Seion wan ei ffydd;
Can's ymdrechwyr gaiff y goron;
Rhai fo'n ffyddlawn yn eu dydd.

24

Ceisiwn hefyd gan yr ARGLWYDD
Gofiaw ei hiliogeth byth;
A bendithiaw hyd y filfed
Bell genhedlaeth yn ddilyth;
Yn enwedig cofiaw Margret,
Sy'n alarus iawn ei llef,
A Duw fyddo'n ei chysuraw,
A'i diddanu is y nef.

25

Chwithau Margret a gynghoraf,
Er nad ydwyf fi ond ffol
Beidiaw a thristâi'n ormodol,
Fel heb obaith ar ei ol;
Er ich' golli priod anwyl,
Hynaws ffyddlawn i chwi'n hir;
Y mai genych chwi ffyddlonach,
Priod etto gwn yn wir.

L269 30.5 140



26

Nid hyd angeu gwnaeth e'r amod,
  Pan briododd a chwychwi,
Ond " Mewn myrdd o gyfyngderau
  Byth y byddaf gyda thi ;
Ac yn afon yr Iorddonen
  Mi ymaflaf yn dy law,
Ac mi' th ddygaf i dir gwynfyd ;
  Lle na bydd na phoen na braw."

27

Pan fa'i Dafydd yn afiachus,
  Byddech iddo'n dyner iawn ;
Ac fel mammaeth hynaws fwynaidd,
  Yn ei wylied fore a nawn,
'Nol b'ai Dafydd oddi cartref,
  Yn pregethu'r Jesu gwiw
Pan ddychwelai chwi gwas'naethech
  Fel gwas cywir iawn i Dduw.

28

Ond o'r Diwedd teithiodd siwrnau
  Ar y diwrnod cynta'o fai',
Deunawcant ac un ar hugain
  Ydoedd oedran Crist heb lai,
Ac ni ddychwel byth ond hynny
  Tra bo seren yn y nef ;
Ac er gorwedd yn y Capel,
  Ni chawn glywed mwy oi lef.

29

Ond er i chwi golli priod,
  Ffyddlawn, mwynaidd, goreu'n fyw,
Peidiwch suddaw dan eich tristwch,
  Gorfoleddwch yn eich Duw :
Dysged troion ei ragluniaeth
  Dyrus rhyfedd is y nen,
Ni yn well i'w ogoneddu
  Tra b'om yn y byd. *Amen.*